TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 29 Tachwedd 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*"Allwch chi ddweud wrtha i faint o arian mae Trafnidiaeth Cymru wedi ei wario ar hysbysebu ym mhob blwyddyn ariannol ers 2018?*

*Allech chi rannu gwariant yn gategorïau fel hysbysebion teledu, hysbysebion radio, taflenni ac ati."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Mae cyfanswm ein gwariant ar hysbysebu ar gyfer pob blwyddyn ariannol ers 2018 wedi'i amlinellu yn y tabl isod.

Sylwch na allwn rannu'r gwariant yn ôl y categorïau y gofynnwyd amdanynt (fel hysbysebion teledu, hysbysebion radio, taflenni ac ati). Pan fyddwn yn penodi darparwr gwasanaethau hysbysebu, cytunir ar 'gynllun hysbysebu' cyflawn. Bydd y cynllun hwn yn ymdrin ag amrywiaeth o wahanol gyfryngau hysbysebu. Codir un archeb brynu i dalu am y cynllun cyfan, ac o'r herwydd, nid yw ein cofnodion ariannol yn adlewyrchu dadansoddiad o'r gwahanol gyfryngau a ddefnyddir ar gyfer pob ymgyrch, dim ond cyfanswm y gost.

Byddai adfer pob archeb brynu a roddwyd yn ystod yr amserlen a nodwyd a chodi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani â llaw drwy gyfateb pob archeb brynu â'i chynllun hysbysebu yn dasg gymhleth a fyddai'n cymryd llawer o amser, a byddai'n rhaid i ni ddod ag adnodd gweinyddol dros dro i mewn i gwblhau'r gwaith. O'r herwydd, byddai rhannu'r gwariant ar hysbysebu i'r categorïau y gofynnwyd amdanynt yn golygu bod angen mynd y tu hwnt i'r terfyn amser a chost ar gyfer prosesu cais, sef £600, ar y sail y byddai'n cymryd 24 awr o amser staff ar gyfradd safonol o £25 yr awr. Gall cyfrifo'r gost hon gynnwys:

a) penderfynu a oes gennym ni'r wybodaeth y gofynnwyd amdani;
b) penderfynu a yw'r wybodaeth yn eithriedig;
c) dod o hyd i'r wybodaeth a chael gafael arni;
ch) echdynnu'r wybodaeth.

Gall awdurdodau cyhoeddus wrthod cais ar sail eu hamcangyfrifon eu hunain a does dim gofyniad swyddogol i gynnwys dadansoddiad o'r amcangyfrif o'r costau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Amlinellir cyfanswm ein gwariant hysbysebu ers 2018 yn y tabl isod:

| | FY2018/19 | FY2019/20 | FY2020/21 | FY2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwariant Marchnata | 190,797 | 717,346 | 225,174 | 108,576 |

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/